HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Cynllun Plismona Ardal Cymru a'r Gorllewin 2006 – 2007

Plismona Rheilffyrdd Prydain

Rhagarweiniad

gan y Prif Uwcharolygydd Dros Dro Peter McHugh
Pennaeth Ardal.

Pleser mawr i mi yw cyflwyno Cynllun Plismona Ardal Cymru a'r Gorllewin i chi am y flwyddyn 2006-07. Ym mlwyddyn amcanion 2005-06, cyrhaeddodd yr Ardal lefel perfformiad digyffelyb gan gyflawni ei holl amcanion gweithredol yn ogystal â'r targed a bennwyd ar gyfer ymdrin â marwolaethau. Hefyd, bu gostyngiad sylweddol yn absenoldeb salwch Swyddogion a Staff yr Heddlu a arweiniodd felly at gynyddu ein gallu i wneud gwaith rheng flaen.

Roedd llwyddiant y llynedd o ganlyniad i ymroddiad ac ymdrech holl Swyddogion a Staff yr Heddlu yn Ardal Cymru a'r Gorllewin i weithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant, asiantaethau allanol eraill a'r cyhoedd.

Mae'r targedau sydd wedi eu gosod ar gyfer 2006-07 yn llawn her. Mae angen i ni wneud cynnydd sylweddol yn ein cyfraddau datrys mewn perthynas â lladradau a graffiti yn ogystal â chynnydd yng ngraddfeydd datrysiadau pob amcan arall hefyd. Gyda datblygiad Plismona sy'n cael ei arwain gan wybodaeth gyfrin a gwell cyswllt gyda'n cydweithwyr yn y diwydiant a thu allan i'r diwydiant, rwy'n hyderus bod yr Ardal mewn sefyllfa dda i wynebu'r heriadau hyn. Llynedd, gwelwyd cynnydd cyffredinol yn adnoddau'r Ardal a lleolwyd Swyddogion Cefnogi Cymunedau'r Heddlu yn Birmingham am y tro cyntaf. Eleni eto, byddwn yn gweld cynnydd sylweddol yng Nghymru a bydd Gorsaf Heddlu newydd yn agor ym Mhontypridd. Mae hyn yn arwydd o'n hymroddiad i blismona mewn modd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a bydd yn sicrhau bod gwasanaeth plismona ymroddedig a rheolaidd ar gael i gymoedd De Cymru.

Mae Ardal Cymru a'r Gorllewin yn croesawu eich barn a'ch sylwadau, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r diwydiant a'n partneriaid yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Peter McHugh
Prif Uwcharolygydd Dros Dro
Pennaeth Ardal

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Ein gorchwyl yw gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i helpu'r ymdrech i sicrhau amgylchedd diogel ar y rheilffyrdd heb darfiadau ac ofn troseddau.

Amcanion Plismona

Bydd Ardal Cymru a'r Gorllewin yn gweithio tuag at yr amcanion a'r targedau a ganlyn yn 2006-07.

Targedau Gweithredol	
Amcan	**Targed**
Trais a throseddau rhyw	Diogelu'r cyhoedd sy'n teithio a staff y rheilffyrdd drwy ddatrys o leiaf 56% o'r holl drais a throseddau rhyw.
Mae'n amhosibl goramcangyfrif effeithiau negyddol y mathau hyn o drosedd ar y gymuned reilffyrdd, ac mae'r HTP yn ymrwymedig i ddwyn y rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn gerbron llysoedd. Mae cynnwys arfau bygythiol yn y categori hwn yn 2005-06 yn tanlinellu ymhellach ymrwymiad yr HTP i ddileu trais o'r math hwn ar y rhwydwaith ac mae'n cefnogi mentrau fel Ymgyrch Shield.	
Ymosodiadau ar Staff	Diogelu staff ar y rheilffyrdd drwy ddatrys o leiaf 53% o'r holl ymosodiadau ar staff.
Mae ymosodiadau ar staff yn flaenoriaeth allweddol arall ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd a hefyd yn un o'r prif bryderon a fynegwyd yn arolwg staff y rheilffyrdd. Bydd yr HTP yn parhau i arloesi gyda'r defnydd o dystiolaeth fforensig, datblygu mentrau lleol gyda chwmnïau rheilffyrdd a gosod safonau sylfaenol o ran ymchwilio er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni'r ymosodiadau hyn yn erbyn staff y rheilffyrdd yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd. Cyfradd ddatrysiadau Ardal Cymru a'r Gorllewin yn 2005-06 oedd 55%.	

Amcanion Plismona

Targedau Gweithredol

Amcan	Targed
Troseddau Casineb	Troseddau Casineb Diogelu staff y rheilffyrdd a theithwyr drwy ddatrys o leiaf 52% o'r holl droseddau casineb.
Mae troseddau casineb yn golygu unrhyw drosedd lle mae rhagfarn unigolyn yn erbyn grŵp adnabyddadwy yn ffactor wrth iddo/iddi ddewis dioddefydd, ac mae hyn yn achosi gofid eithafol i staff a theithwyr pan fo'n digwydd.	
Lladrata	Brwydro yn erbyn lladrata ar y rhwydwaith rheilffyrdd drwy ddatrys o leiaf 38% o'r holl ladradau.
Mae lladrata yn un o flaenoriaethau'r HTP oherwydd bod trais gwirioneddol neu fygwth trais yn ffactor sy'n gwaethygu'r drosedd, ac oherwydd effaith anghymesur y drosedd hon ar ganfyddiadau'r cyhoedd o ddiogelwch wrth deithio ar y rhwydwaith rheilffyrdd.	
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	Brwydro yn erbyn anhrefn ar y rheilffyrdd drwy ddod â 1800 o droseddwyr gerbron y llysoedd am droseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn arbennig anhrefn lefel isel ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol, yw'r pryder mwyaf a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r targed hwn yn canolbwyntio ar amrediad cyfan cymhleth o ymddygiad hunanol ac annerbyniol sy'n gallu difetha bywyd cymunedau. Mae'n cynnwys twyll teithio – trosedd sy'n gostus iawn i'r diwydiant, ac sy'n rhan sylweddol o waith Ardal Cymru a'r Gorllewin.	
Dwyn eiddo teithwyr	Diogelu eiddo teithwyr drwy gyflawni gostyngiad o 4% yn nifer y troseddau o ddwyn eiddo teithwyr.
Mae dwyn eiddo teithwyr yn cyfateb i 30% o'r holl droseddau hysbysadwy a riportiwyd i'r HTP ac felly, mae'n broblem ddifrifol i deithwyr ac i'r diwydiant. Cofnododd Ardal Cymru a'r Gorllewin 2105 o droseddau dwyn eiddo teithwyr yn 2005-06 a'r targed am 2006-07 yw 2021.	
Troseddau ar Lwybrau Teithio	Gweithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant rheilffyrdd i frwydro yn erbyn fandaliaeth ar y rheilffyrdd drwy ddatrys o leiaf 13% o'r holl droseddau ar lwybrau teithio.
Mae troseddau ar lwybrau teithio yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r diwydiant ac i'r HTP. Mae troseddau ar lwybrau teithio yn achosi perygl difrifol i ddiogelwch y rheiny sy'n gweithio ac yn teithio ar y rhwydwaith ac i'r bobl hynny sy'n cyflawni'r troseddau hyn. Mae'r targed hwn wedi cael ei anelu at y mathau mwyaf difrifol o droseddau ar lwybrau teithio fel gosod rhwystrau ar draciau, fandaleiddio signalau a thaflu pethau at drenau.	
Rheoli Marwolaethau	Dirwyn i ben unrhyw weithgaredd heddlu sy'n tarfu ar symudiadau trenau o fewn cyfartaledd o 90 munud o'r amser y cafwyd gwybod am ddigwyddiad angheuol.
Mae'r HTP wedi profi ei allu i ddelio'n effeithiol gyda marwolaethau ac i sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i barchu urddas yr un a fu farw, ymchwilio'n drylwyr i'r digwyddiad a chadw'r rheilffyrdd yn rhedeg yn llyfn. Nid yw'r targed hwn yn cynnwys digwyddiadau mawr na digwyddiadau yn y categorïau 'Amheus', 'RTA Croesfan Reilffordd' a 'Dim Eglurhad'. Roedd perfformiad 2005-06 yn 84 munud ar gyfartaledd.	
Ansawdd y Gwasanaeth	Darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dioddefydd drwy sicrhau bod boddhad cyffredinol dioddefwyr troseddau ar y rheilffyrdd o leiaf 79%.
Bydd data ar gyfer y targed hwn yn dod o arolwg dioddefwyr troseddau'r HTP a bydd yn ategu nod strategol yr HTP o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a hefyd ei ymrwymiad i gydymffurfio â'r Ymrwymiad Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol erbyn mis Tachwedd 2006. Y lefel boddhad cyffredinol yn 2005-06 oedd 75%.	

Targedau Gweithredol

Amcan	Targed
Gorchmynion Gwahardd Pêl-droed	Brwydro yn erbyn hwliganiaeth pêl-droed ar y rheilffyrdd drwy wneud cais am orchmynion gwahardd pêl-droed mewn o leiaf 85% o droseddau perthnasol sy'n gysylltiedig â phêl-droed.
Mae Gorchmynion Gwahardd Pêl-droed yn gosb effeithiol a llym i bobl sydd wedi eu canfod yn euog o anhrefn sy'n gysylltiedig â phêl-droed a gellir eu defnyddio yn ychwanegol at unrhyw ddirwyon neu gyfnodau mewn carchar a roddir gan y llysoedd. Gellir gwahardd pobl sy'n cael Gorchymyn rhag mynd i unrhyw gemau pêl-droed dynodedig yng Nghymru a Lloegr am dair blynedd, yn ogystal ag unrhyw gemau rhyngwladol gartref neu dramor. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod 2006, pan fydd gornest Cwpan y Byd yn yr Almaen yn risg sylweddol o ran trosedd ac anhrefn difrifol. Yn ystod 2005-06, gwnaeth yr HTP gais am Orchmynion Gwahardd Pêl-droed yn 88% o'r achosion perthnasol.	
Graffiti	Atal graffiti ar y rheilffyrdd drwy gyflawni cynnydd o 10% yn nifer y datrysiadau mewn perthynas â throseddau graffiti.
Mae graffiti yn costio miliynau o bunnau bob blwyddyn i'r diwydiant, ac mae'n broblem ddifrifol iawn. Mae Graffiti hefyd yn drosedd 'signal' – trosedd a all greu ofn, sy'n golygu y gallai pobl ddewis peidio â defnyddio'r rheilffyrdd. Llwyddodd Ardal Cymru a'r Gorllewin i ddatrys 64 o droseddau yn ystod 2005-06.	

Targedau gwrth-frawychiaeth

Amcan	Targed
Atal a tharfu ar frawychiaeth	Atal a tharfu ar weithgareddau brawychol, a chynnal ymateb effeithiol i ddigwyddiadau a bygythiadau brawychol gwirioneddol ac amheus drwy: ■ Sicrhau bod o leiaf 8% o'r holl swyddogion wedi eu hyfforddi i ddefnyddio gwisg CBRN Marc 4/CR1. ■ Cymryd rhan mewn o leiaf 90% o ymarferion gwrth-frawychi aeth cenedlaethol a lleol Uned Brawychiaeth ac Amddiffyn y Swyddfa Gartref pan fo senarios perthnasol am effeithiau ar reilffyrdd. ■ Cyflawni gwaith proffilio CBR mewn lleoliadau dethol unwaith bob 28 diwrnod yn ystod 90% o'r cyfnodau 28 diwrnod. ■ Cynnal gallu parhaol i ddarparu ymateb arbenigol.
Bydd ymladd yn erbyn brawychiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r HTP a'r diwydiant yn ystod 2006-07. Mae'r targedau hyn yn dangos penderfyniad yr HTP i barhau i ddarparu gwasanaeth amddiffyn effeithiol ar gyfer y rheilffyrdd a gallu i ymdrin â digwyddiad brawychol mawr. Er y bydd nifer o dargedau rhifiadol eraill yn cael eu cynnwys yng nghynllun yr Adran Gweithrediadau, ni fyddant yn cael eu cyhoeddi oherwydd natur sensitif yr wybodaeth.	

Canlyniadau Perfformiad 2005 – 2006

Disgrifiad Targed	Targed	Gwir	Cyflawnwyd
Ymosodiadau ar Staff Y gyfradd ddatrysiadau i fod o leiaf 44%.	**44%**	**55%**	✔
Dangosir dim goddefgarwch tuag at ymosodiadau ar staff. Mae gan yr Ardal safonau sylfaenol o ran ymchwilio i hyn er mwyn ceisio sicrhau y bydd erlyniad yn digwydd bob tro y bydd rhywun yn ymosod ar staff y rheilffyrdd. Bu cyfleoedd fforensig fel profion DNA drwy ddefnyddio pecynnau poer o gymorth i gyflawni'r targed hwn. Mae'r gyfradd ddatrysiadau yn adlewyrchu'r ymdrech y mae swyddogion a staff yr heddlu yn yr Ardal wedi ei wneud i ddwyn troseddwyr gerbron llysoedd.			
Lladradau Y gyfradd ddatrysiadau i fod o leiaf 29%.	**29%**	**38%**	✔
Mae swyddogion CID yn ymchwilio i ladradau sy'n defnyddio eu gwybodaeth fanwl a'u profiad i ymchwilio i'r troseddau hyn. Drwy ddefnyddio a manteisio ar gyfleoedd fforensig yn ogystal â gwybodaeth gyfrin a geir drwy law'r Model Gwybodaeth Gyfrin Cenedlaethol, mae'r Ardal wedi cyflawni'r targed datrysiadau.			
Troseddau Casineb Y gyfradd ddatrysiadau i fod o leiaf 49%.	**49%**	**52%**	✔
Caiff troseddau casineb eu trin yn ddifrifol iawn, ac mae'r heddlu yn gwneud yr ymdrech orau bosibl i'w datrys. Mae'r Ardal wedi gweithio'n galed iawn i ennill hyder y cymunedau lleiafrifol, fel bod troseddau'n cael eu riportio'n gyflym pan fyddant yn digwydd. Mae hyn yn ein galluogi i gasglu'r dystiolaeth orau a sicrhau mwy o euogfarnau.			
Ymosodiadau Treisgar Y gyfradd ddatrysiadau i fod o leiaf 49%.	**49%**	**59%**	✔
Mae ymosodiadau treisgar yn flaenoriaeth glir i'r Ardal. Mae canllawiau penodol ar ymchwilio i drosedd o'r math hwn a defnydd rhagweithgar o TCC, ynghyd â staff y rheilffyrdd a swyddogion heddlu yn rheoli mannau cyhoeddus, yn golygu fod canfyddiadau mewn perthynas â'r troseddau hyn yn uchel.			
Dwyn Eiddo Teithwyr Y gyfradd ddatrysiadau i fod o leiaf 4%.	**4%**	**5%**	✔
Nifer i beidio â bod yn uwch na.	**2768**	**2105**	✔
Llwyddwyd i ddatrys troseddau drwy anfon swyddogion heddlu mewn dillad cyffredin i batrolio trenau a gorsafoedd, yn seiliedig ar y tueddiadau a ganfuwyd drwy'r Model Gwybodaeth Gyfrin Cenedlaethol. Hefyd, bu swyddogion gostwng troseddu yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i gyflawni'r targedau hyn.			
Anhrefn lefel isel a gafodd ei drin trwy ddatrysiad barnwrol.	**1454**	**1589**	✔
Mae anhrefn lefel isel yn droseddau o fath gwrthgymdeithasol a gallant ychwanegu at yr ofn troseddau ymysg y cyhoedd. Mae ymyrraeth fuan gan swyddogion a'r defnydd cadarn o becyn cynhwysfawr o gosbau wedi golygu fod yr Ardal wedi taclo'r math hwn o drosedd yn effeithiol.			
Graffiti a gafodd ei drin trwy ddatrysiad barnwrol.	**48**	**64**	✔
Mae graffiti yn drosedd 'signal' sy'n gallu creu argraff fod troseddu'n gyffredin mewn ardal. Drwy gasglu gwybodaeth gyfrin ar dueddiadau ac enwau 'tag', mae Ardal Cymru a'r Gorllewin wedi llwyddo i gyflawni cynnydd sylweddol yn nifer y datrysiadau.			

Canlyniadau Perfformiad 2005 – 2006

Disgrifiad Targed	Targed	Gwir	Cyflawnwyd
Troseddau ar Lwybrau Teithio Y gyfradd ddatrysiadau i fod o leiaf 11%.	**11%**	**13%**	✔
Gall Troseddau ar Lwybrau Teithio yn Ardal Cymru a'r Gorllewin effeithio ar ardaloedd eraill. Gall trên sydd wedi cael ei ddal yn ôl oherwydd fandaliaeth effeithio ar symudiadau teithwyr a threnau mewn rhannau eraill o'r rhwydwaith. Mae cost ariannol hyn i'r diwydiant a'r cyhoedd yn sylweddol. Felly, mae Ardal Cymru a'r Gorllewin yn arbennig o falch o'i lwyddiant yn erbyn y targed a bennwyd. Drwy ddefnyddio swyddogion ymrwymedig sydd wedi magu cyfoeth o brofiad yn taclo'r problemau gwaethaf yng nghategori'r math hwn o drosedd, a'r defnydd o offer technegol a fforensig, mae mwy o droseddwyr wedi cael eu dal a'u trin.			
Marwolaethau Amser a gymerwyd i glirio digwyddiad.	**90 munud**	**84 munud**	✔
Mae swyddogion sy'n mynd i leoliadau marwolaethau yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ac mae'n rhaid cydbwyso anghenion y dioddefydd gydag anghenion y diwydiant drwy ddefnyddio swyddogion profiadol wedi eu hyfforddi sy'n deall y gofynion cystadleuol hyn ond a fydd bob amser yn trin pob dioddefydd â gofal, ac yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd y meirw. Mae'r darn hwn o'n cynllun plismona yn ymdrin â digwyddiadau heb fod yn rhai amheus yn unig ynghyd â'r rheiny y gellir dangos yn gyflym eu bod yn farwolaethau y gallwn eu hegluro.			

Dweud eich dweud

Os hoffech gynnig sylwadau ar y Cynllun Plismona Ardal hwn, ysgrifennwch at:

Y Pennaeth Ardal
Ardal Cymru a'r Gorllewin
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Llawr 1af, The Axis
10 Holliday Street
Birmingham B1 1UP

I gael gwybod mwy

Os hoffech wybod mwy am yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ewch i'n gwefan yn www.btp.police.uk neu ysgrifennwch at yr:

Uned Cynllunio Strategol a Chyd-drefnu Polisïau
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
25 Camden Road
Llundain NW1 9LN
Ebost: michael.furness@btp.pnn.police.uk

I gysylltu gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

MEWN ARGYFWNG: FFONIWCH 999 GALWADAU ERAILL: RHADFFON 0800 40 50 40

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Cynllun Plismona Ardal Cymru a'r Gorllewin 2006 – 2007

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Eden Media Limited info@edenmedia-uk.com